CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 27ain MEDI 2016.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mr Einion Parry Williams, Mr Edward J Thomas, Mrs Janet Hughes, Mr John D Pritchard, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen, Mr Meirion Thomas, Mr Raymond Evans, Mrs Catherine Jean Hughes a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorwyr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:
Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.2 Cydymdeimlwyd a Cynghorydd Meirion Thomas yn dilyn ei brofedigaeth a hefyd teulu Mrs Susan Owen yn dilyn ei damwain erchyll.

1.3 Roedd Cynghorydd Edward Thomas yn datgan diddordeb rhagfarnol ar eitem 10.3 ar y rhaglen (Cais Cynllunio 25 Bronllys, Gaerwen – 33C313) ac ni chymerodd rhan mewn unrhyw trafodaeth/penderfyniad.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Victor Hughes ar y canlynol:

2.1 **Problemau Carthffosiaeth Dŵr –** adroddiad fod cyfarfod bellach wedi ei drefnu diwedd y mis i drafod gorlifo ym Mhentre Berw.

2.2 **Ymgynghoriad Horizon (Wylfa Newydd) –** dywedodd ei fod yn awyddus i pob Cyngor Cymuned ymateb i'r ymgynghoriad a canolbwyntio ar effaith cymunedol a sicrhau fod cynlluniadau yn gywir er mwyn cadw iaith a rinwedd bywyd dyfodol yr Ynys.

2.3 **Cynllun Cysylltiad Nwy Pentre Gaerwen –** gofynwyd yr aelodau i Cyng Hughes wneud ymchwiliadau bellach ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

3 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 26ain Gorffennaf 2016 yn gywir. (EPW/JH).

Arwyddo.....

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 **Cysgodfan Bws gyferbyn tu allan mynedfa'r Ysgol Gynradd** – nodwyd fod cwmwni D Hughes Welding wedi cwblhau'r gwaith ac fe benderfynwyd yr aelodau I wneud y taliad, sef £1,140.00 + TAW yn unol ar amcancyfrif a dderbyniwyd.

4.2 **Hysbysfwrdd Newydd** – derbyniwyd pris £777.98 + TAW wedi ei dderbyn oddiwrth Cwmni Greenbarnes a disgwylir ei osod cyn diwedd Mis Hydref.

4.3 **Materion Heddlu –** nodwyd fod difrod wedi digwydd mewn sawl safle yn y pentre ac fod problemau parcio yn parhau – penderfynwyd ymestyn gwahoddiad i'r Heddlu unwaith eto i'r cyfarfod nesaf.

5 PARC GWYDDONIAETH

5.1 Penderfynwyd y dylai y Clerc a Cyng Sirol Victor Hughes cyd-gysylltu gyda'r Adran Cynllunio er mwyn darganfod y sefyllfa diweddaraf oherwydd nad oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn manylion Cais Llawn y Parc Gwyddoniaeth a hefyd fod rhaid ystyried archwiliad ystlymod ar frys cyn dymchwel unrhyw adeiliad a soniwyd.

6 MATERION CAEAU CHWARAE.

6.1 Wâl Cae Chwarae Mawr – nodwyd fod Mr John Williams wedi bod yn brysur yn ail-godi'r wâl.

6.2 Nodwyd fod sbwriel o gwmpas y Cae Chwarae Mawr yn creu pryder a gofyn cadw golwg ar y sefyllfa.

6.3 Dangoswyd pryder fod cost yswirio offer odditeu £1,500 y flwyddyn ac fod angen sylw ac ail-edrych ar Cwmni Yswiriant ynghylch a Cae Chwarae Gaerwen Uchaf.

6.4 Nodwyd fod yr amser wedi dod i ystyried gosod arwyddion newydd yn y caeau chwarae.

7 MATERION LLWYBRAU.

7.1 DIM ADRODDIAD.

8 MATERION PRIFFYRDD.

8.1 Parcio Mynedfa Stad Swn yr Engan & Bronllys – nodwyd pryder yr aelodau i'r parcio ger mynedfa y ddwy stad a gofyn I Cyng Edward Thomas trefnu cyfarfod gyda swyddog o'r Adran Trafnidiaeth ar y safle i drafod y sefyllfa ac unrhyw safle arall sydd angen sylw.

8.2 Nodwyd Gorchymyn y Cyngor Sir (Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro) (Ffordd o'r A5122 pasio Fron Capel i'r cyffordd gogledd o Fron Deg, Gaerwen) er mwyn gosod prif bibell nwy newydd rhwng 19 Medi 2016 a 7fed Hydref 2016.

Arwyddo.....

8.3 Nodwyd Gorchymyn y Cyngor Sir (Cyfyngu Cyflymder 10mya Dros Dro) (Gwaith Cynnal & Chadw ac Ailwyndebu'r Priffordd) trwy'r pentref rhwng 19 Medi 2016 a 5ed Dachwedd 2016.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD & PENDERFYNIADAU Y CYNGOR SIR.

9.1 Cais Codi Gwifren Polion Pren 11Kv ynghyd a gosod gwifren polion pren yn lle'r wifren twr 33Kv presennol ar dir rhwng:
LLEOLIAD: Rhosydd & Careg Wian, Gaerwen. Rhif Cais: 33EL1463/E.
Penderfyniad – **Oherwydd diffyg union gwybodaeth y cais – gofynwyd am rhagor o wybodaeth cyn ymateb a gofyn atal unrhyw penderfyniad yn y cyfamser.**

9.2 Cais Llawn ar gyfer Codi Modurdy / Gweithdy Preifat (Cais Diwygiedig) yn:
LLEOLIAD: The Barn, Durham Lodge, Gaerwen. Rhif Cais 33C150B.
Penderfyniad - **DIM SYLWADAU.**

9.3 Cais Llawn Dymchwel Loches Cynllun Agored to fflat presennol ynghyd a codi porth yn:
LLEOLIAD: 25 Bronllys, Gaerwen. Rhif Cais: 33C313.
Penderfyniad – **DIM SYLWADAU.**

9.4 Cais Adran 73 Diwygio Amod (14) o Ganiatad Cynllunio Rhif 33C295B (Codi Annedd Newydd) er mwyn newid o gysylltu i'r carthffos cyhoeddus i osod pecyn trin carthffosiaeth ar dir ger:
LLEOLIAD: 4 Nant y Gors, Pentre Berw. Rhif Cais: 33C295C/VAR.
Penderfyniad – **DIM SYLWADAU.**

9.5 Cais Adran 73 Tynnu Amod (08) (Llety Preifat mewn cysylltiad a'r annedd adwaenir fel Berw Uchaf) o Ganiatad Cynllunio Rhif 33C182 (Addasu & Ehangu) yn:
LLEOLIAD: Bwthyn Cerian, Pentre Berw. Rhif Cais: 33C182C/DEL
Penderfyniad – **DIM SYLWADAU.**

9.6 Cais Llawn ar gyfer Dymchwel Adeilad Swyddfa Presennol ynghyd a codi Adeilad Swyddfa Newydd yn ei le yn:
LLEOLIAD: Mona Precast, Stad Diwydiannol, Gaerwen. Rhif Cais: 33C20Y/3.
Penderfyniad – **DIM SYLWADAU.**

9.7 Cais Ffurflen Pennu Datblygiad Amaethyddol Gosod Wyneb Newydd a Codi Uchder Trac Amaethyddol Presennol yn:
LLEOLIAD: Cors Ddyga Malltraeth, Pentre Berw. Rhif Cais: 33C204A.
Penderfyniad: **Nid oedd gwrthwynebiad gosod wyneb newydd ond ni all cefnogi'r cais o godi uchder y trac oherwydd roedd pryder y gall hyn arwain at codi lefel y dwr ac achosi a fwy o orlifo mewn ardal sydd a hanes o wneud hyn.**

9.8 Cais Llawn Gosod 7 Lifddorau a 2 Goredau mewn-sianel er mwyn gwella rheolaeth lefel y dwr yn:
LLEOLIAD: Cors Ddyga Malltraeth, Pentre Berw. Rhif Cais: 33C204B.
Penderfyniad: **Gweler ymateb cais 9.7 uchod.**

Arwyddo.....

Penderfynwyd ymestyn gwahoddiad i aelod Cyfoeth Naturiol Cymru i cyfarfod y Cyngor cyn y Nadolig er mwyn trafod y cynlluniau yma yn fwy manwl.

10 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO Y CYNGOR SIR.

10.1 Cais Adran 73 diwygio amod (07) cais caniatad cynllunio rhif 33C209F & Cais Llawn Codi Ystafell Haul yn:
LLEOLIAD: Terfyn, Pentre Berw. Rhif Cais: 33C209H/VAR & 33C209J.
Penderfyniad: CANIATĀD.

10.2 Cais Llawn Newid defnydd adeilad allanol i annedd ynghyd a creu mynedfa newydd i gerbydau n:
LLEOLIAD: Tyddyn Rhydd, Pentre Berw. Rhif Cais: 33LPA995/CC.
Penderfyniad: CANIATAD.

10.3 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn Bryn Teg, Pentre Berw – 33C296A – CANIATAD.

10.4 Cais Arwyddion Llain Capel Ulo, Pentre Berw – 33C102H/AD – CANIATAD.

11 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

11.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Awst 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

11.2 **Gweinyddu & Rheoli Risg:**

11.2.1 Dim adroddiad.

11.3. **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 11.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

212	Dafydd Hughes	Torri Caeau Chwarae Mis Awst	£ 350.00
213	Un Llais Cymru	Cynhadledd & Cyfarfod Blynyddol	£ 80.00
214	Dafydd Hughes	Torri Caeau Chwarae Mis Medi	£ 350.00
215	D Hughes Welding	Atgyweirio Cysgodfan Bws	£1,140.00 + TAW
216	Greenbarnes Limited	Hysbysfwrdd Newydd	£777.98 + TAW

12. ADRODDIADAU.

12.1 DIM ADRODDIAD.

Arwyddo.....

13. GOHEBIAETH

13.1 Datganiad y Cyngor Sir – Gordyfiant yn Effeithio Diogelwch y Ffyrdd – er gwybodaeth.

13.2 Dogfen Gwasanaeth Ailgylchu & Chasglu Gwastraff Newydd – er gwybodaeth.

13.3 Rhybudd Cyfarfod Arbennig Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned er mwyn cynnig cefnogaeth arbenigol ac annibynnol er mwyn ymateb i Ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol. **Disgwylir adroddiad yn y cyfarfod nesaf.**

13.4 Rhybudd Cyfarfod Nesaf y Fforwm Cyswllt – 24ain Tachwedd 2016.

13.5 Ymgynghoriad Prosiect Wylfa Newydd – dyddiad cau 25 Hydref 2016 – er gwybodaeth.

13.6 Rhybudd Cyfarfod Nesaf Cangen Pwyllgor Mon – Un Llais Cymru – 6ed Hydref 2016.

13.7 Arolwg 2018 Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Cychwynnol – dyddiad cau cyfnod sylwadau – 5 Rhagfyr 2016.

13.8 Gweithdy Effeithlonrwydd Ynni & Ynni Adnewyddadwy – Cyffordd Llandudno – 7fed Hydref 2016 – Cyng Einion P Williams wedi cynnig fynychu'r gweithdy.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 25ain HYDREF 20165.

14.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:35yh.